# Y Pwyllgor Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Presiding Officer's office, 4th floor – Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 16 Medi 2014** |
| Amser: | **08.30 – 09.00** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion: MeetingTitle

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | **Y Fonesig Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Paul Davies**<br>**Jane Hutt (yn lle Lesley Griffiths)**<br>**Elin Jones**<br>**Aled Roberts** |
| Staff y Pwyllgor: | **Aled Elwyn Jones (Clerc)** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding AC, Y Dirprwy Lywydd**<br>**Christopher Warner, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth**<br>**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth**<br>**Craig Stephenson**<br>**Peter Greening, Llywodraeth Cymru** |

## 1 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

Cafwyd ymddiheuriadau gan Lesley Griffiths a dirprwyodd Jane Hutt, y Gweinidog newydd dros Fusnes y Llywodraeth, ar ei rhan.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn busnes

3.1 Busnes yr wythnos hon

Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth am y newidiadau i Fusnes y Llywodraeth ddydd Mawrth.

Bydd y Cyfnod Pleidleisio ddydd Mawrth ar ôl yr eitem olaf o fusnes. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid cynnal y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer ddydd Mercher.

3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Rheolwyr Busnes y bydd cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad yn cael eu cyflwyno wythnos ynghynt, set 1 Hydref, a bob pedair wythnos wedi hynny. Diben hyn yw creu gwell cydbwysedd o ran busnes o ystyried yr amserlen newydd ar gyfer Cwestiynau Llafar y Cynulliad, sy'n cynnwys cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Cwnsler Cyffredinol yn ystod yr wythnos honno.

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn y busnes a chytunodd i amserlennu'r eitemau a ganlyn:

Dydd Mercher 8 Hydref 2014

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar arfer gorau mewn prosesau cyllidebol (60 munud)

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar wasanaethau orthodontig yng Nghymru.

- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)

- Dadl Fer (30 munud)

## 4 Deddfwriaeth

4.1 Bil Cynllunio Drafft (Cymru):

Cytunodd y Pwyllgor Busnes mewn egwyddor i gyfeirio'r Bil Cynllunio (Cymru) at y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar gyfer ystyriaeth Cyfnod 1.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes y byddent yn gohirio'r penderfyniad ar amserlen y Bil tan yr wythnos nesaf i roi amser i ymgynghori â'r Pwyllgor.

4.2 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth

Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur gan y Llywodraeth ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol at y Pwyllgor Menter a Busnes er mwyn iddo graffu arno. Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol erbyn 16 Hydref 2014 er mwyn i'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 21 Hydref 2014.

## 5 Y Rheolau Sefydlog

5.1 Diwygiadau arfaethedig i Reol Sefydlog 26 – Deddfau'r Cynulliad

Trafododd a chymeradwyodd y Pwyllgor Busnes adroddiad drafft ar ddiwygio Rheol Sefydlog 26 mewn perthynas â Deddfau'r Cynulliad.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gyflwyno cynnig i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog, i'w ystyried gan y Cynulliad ddydd Mercher 24 Medi 2014.

**UNRHYW FATER ARALL**

Trafododd y Rheolwyr Busnes y trefniadau ar gyfer cwestiynau'r llefarwyr, a dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes y bydd disgwyl i'r llefarwyr aros yn eu seddi rhwng y cwestiynau.